# Comisiwn y Cynulliad
# Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NAFWC 2014 (Papur 2 Rhan1)**
**Diddymu'r Cynulliad**

**Dyddiad:** 30 Medi 2010
**Amser:** 16:00
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw a rhif ffôn yr awdur: Steven O'Donoghue, est 8746**

## Diddymu'r Cynulliad cyn etholiadau 2011

*Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfynwyd ei bod yn addas ei gyhoeddi wedi iddo gael ei ystyried yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir i gynnwys y papur hwn gael ei gyhoeddi na'i ddatgelu'n rhy gynnar oherwydd gallai hyn ddylanwadu ar drafodaethau'r Comisiwn.*

### 1.0 Diben a chrynodeb o'r materion dan sylw

1.1 Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, cytunodd y Comisiwn ar nifer o ddarpariaethau'n ymwneud â diddymu'r Cynulliad hwn. Mae'r rhain ynghlwm yn Atodiad A. Gohiriwyd penderfynu ar ddarpariaethau eraill tan y cyfarfod hwn ym mis Medi er mwyn cael sylwadau gan yr Aelodau a'r staff cymorth.

1.2 Daw tymor gwasanaeth yr Aelodau i ben pan gaiff y Cynulliad ei ddiddymu, tua mis cyn etholiadau 2011. Dyma'r tro cyntaf y caiff y Cynulliad ei ddiddymu ac mae wedi creu rhywfaint o ansicrwydd. Mae rhai agweddau ar ddiddymu'n ofynion cyfreithiol clir. Mae angen bod yn bwyllog mewn perthynas ag agweddau eraill a chaniatáu rhywfaint o ddisgresiwn. Ar ôl penderfynu yn eu cylch, gallwn wedyn baratoi canllawiau cynhwysfawr i'r Aelodau a fydd yn helpu i sicrhau y bydd y broses o ddiddymu'r Cynulliad yn mynd rhagddi'n ddidrafferth.

## 2.0 Argymhellion

**2.1 Ar ôl ymgynghori â'r Aelodau a'u staff cymorth, dros gyfnod yr etholiad yn 2011, argymhellir:**

- **bod staff cymorth a ariennir drwy lwfansau'r Cynulliad yn cael gweithio ar unrhyw waith achos sydd ar y gweill ac ymgymryd â dyletswyddau cyffredinol yn gysylltiedig â chynnal swyddfa tra bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu (gweler 3.4);**
- **bod staff cymorth dynodedig (gan gynnwys staff grŵp) yn cael defnyddio cyfleusterau'r swyddfeydd yn Nhŷ Hywel tra bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu (yn amodol ar rai cyfyngiadau) (gweler 3.5);**
- **rhoi uchafswm o ddau fis o rybudd, ar ôl y diwrnod y caiff y Cynulliad ei ddiddymu, i staff cymorth a ariennir drwy lwfansau'r Cynulliad, os yw'r Aelod sy'n eu cyflogi'n ildio'i sedd (gweler 3.6);**
- **bod staff cymorth yn cael parhau i weithio yn Nhŷ Hywel, yn amodol ar y rhaglen cynnal a chadw swyddfeydd, a fydd yn nodi pryd y bydd angen pacio swyddfeydd (gweler 3.7);**
- **bod y trefniadau Technoleg Gwybodaeth yn cadw at yr amodau a restrir yn adran 4.**

## 3.0 Y Fframwaith Cyfrifyddu a Fframwaith y Swyddog Cyfrifyddu

**3.1 Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") yn gwbl glir – daw tymor gwasanaeth Aelod Cynulliad i ben pan gaiff y Cynulliad ei ddiddymu[1]. At ddibenion talu cyflogau a lwfansau tra bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu, mae Deddf 2006 yn caniatáu i'r Comisiwn barhau i drin yr Aelodau hynny sy'n sefyll i gael eu hail-ethol fel Aelodau'r Cynulliad[2]. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y gallwn barhau i dalu cyflogau staff cymorth a thalu costau swyddfeydd**

[1] Adran 14
[2] Adran 22(4)

etholaethol a rhanbarthol (a gaiff eu talu drwy lwfansau) yn ystod y cyfnod hwn, ond i beidio â darparu gwasanaethau eraill.

3.2 Yn ogystal â'r fframwaith a sefydlwyd gan Ddeddf 2006, y Prif Weithredwr a'r Clerc, fel y Swyddog Cyfrifyddu, sy'n gyfrifol am reoli a threfnu'r Cynulliad, ac am ddefnyddio arian cyhoeddus a gofalu am asedau'r Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys priodoldeb a rheoleidd-dra; gweinyddu call a darbodus; osgoi gwastraff a gorwario a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae gwerth am arian yn arbennig o berthnasol yn ystod cyfnodau o gynni, pan fydd angen i'r Cynulliad, fel gweddill y sector cyhoeddus yng Nghymru, wario llai.

Trafodaeth a chynigion

3.3 Mae'r argymhellion a'r cynigion wedi'u seilio ar y fframwaith cyfreithiol a fframwaith y Swyddog Cyfrifyddu a nodir uchod. Cyhoeddwyd papur briffio i gynrychiolwyr y Grwpiau Plaid, yr Aelodau a'r staff cymorth ar 23 Awst. Mae'r argymhellion y gofynnir i'r Comisiwn eu cymeradwyo heddiw wedi'u gosod allan eto isod, ynghyd â chrynodeb o'r sylwadau perthnasol a gafwyd gan yr Aelodau a'u staff, a'r ymateb iddynt.

3.4 Caiff staff cymorth weithio ar unrhyw waith achos sydd ar y gweill ac ymgymryd â dyletswyddau cyffredinol sy'n gysylltiedig â chynnal swyddfa (h.y. dyletswyddau swyddfa) tra bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu.

3.4.1 Mae'r cynnig yn y papur briffio hwn yn awgrymu mai dim ond gwaith achos sydd ar y gweill eisoes y caiff staff cymorth weithio arno tra bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu. Mae'r sylwadau a gafwyd yn awgrymu bod y safbwynt hwn yn cyfyngu'n ddiangen arnynt. Yn ôl ymateb y Grŵp Llafur a Grŵp y Ceidwadwyr, maent o'r farn y byddai'n briodol caniatáu i staff cymorth ymgymryd â thasgau eraill nad ydynt yn ymwneud o gwbl â'r etholiad (e.e. tasgau gweinyddol, gwaith ymchwil etc.), ac y dylai'r Comisiwn fabwysiadu agwedd fwy hyblyg.

**3.4.2 O ystyried y sylwadau a gafwyd, cynigir y dylid caniatáu i staff cymorth ymgymryd â gwaith yn ymwneud â chynnal swyddfa'n gyffredinol (ffeilio, tasgau gweinyddol arferol) ynghyd â gwaith achos sydd ar y gweill (gan gynnwys ymchwil yn ymwneud â gwaith achos). Byddai hyn yn cydymffurfio â'r cyngor cyfreithiol a gafwyd ac mae'r egwyddor ganolog hon yn sail i'r holl adnoddau a fydd ar gael i staff cymorth tra bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu, yn ôl cynigion y papur hwn.**

**3.5 Darperir cyfleusterau swyddfa yn Nhŷ Hywel i staff cymorth penodol tra bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu (yn amodol ar rai cyfyngiadau).**

**3.5.1 Roedd y papur briffio a ddosbarthwyd i bob plaid yn tynnu sylw at y ffaith bod natur drosiannol y trefniadau ar gyfer diddymu'r Cynulliad yn 2011 yn golygu bod staff cymorth (gan gynnwys staff grŵp) yn cael defnyddio cyfleusterau Tŷ Hywel yn amodol ar rai cyfyngiadau. Byddai hyn yn wahanol i'r hyn sy'n digwydd yr Alban a San Steffan, lle caiff mynediad i staff ac Aelodau ei atal ar ôl diddymu'u deddfwrfeydd.**

**3.5.2 Yn ôl yr ymatebion a gafwyd, roedd yr holl bleidiau'n croesawu hyn ond roeddynt yn teimlo y dylai'r staff cymorth sy'n aros yn Nhŷ Hywel ar ôl diddymu'r Cynulliad barhau i gael defnyddio'u swyddfeydd arferol (yn amodol ar y rhaglen cynnal a chadw swyddfeydd). Byddai hyn yn caniatáu preifatrwydd wrth iddynt gwblhau gwaith achos a oedd ar y gweill.**

**3.5.3 Yr argymhelliad felly, yw y dylid caniatáu i staff cymorth penodol aros yn eu swyddfeydd ond ni ddylid caniatáu iddynt ddefnyddio adnoddau eraill y Cynulliad (Llyfrgell yr Aelodau etc) nac arwyddo dros ymwelwyr (gan gynnwys yr Aelod sy'n eu cyflogi), ac mae'n bosibl y bydd angen iddynt symud i swyddfa arall gan ddibynnu ar y rhaglen cynnal a chadw swyddfeydd.**

**3.5.4 Roedd y papur briffio'n tynnu sylw at y ffaith y gallai'r trefniadau ar gyfer diddymu'r Cynulliad greu cymal yn gysylltiedig â chyflwyno cytundeb safonol i staff cymorth (argymhelliad 53). Mynegodd yr holl grwpiau bryder ynglŷn**

ag ymgynghori cyn cyflwyno hyn. Cyn rhoi cytundeb cyflogaeth safonol ar waith ar gyfer staff cymorth, bydd yn rhaid ymgynghori â'r Aelodau a'r Undebau Llafur.

3.6 Dylid rhoi uchafswm o ddau fis o rybudd i staff cymorth a ariennir drwy lwfansau'r Cynulliad os yw'r Aelod sy'n eu cyflogi'n ildio'i sedd, gan ddechrau ar y diwrnod y caiff y Cynulliad ei ddiddymu.

3.6.1 Yn achos staff cymorth sy'n cael eu cyflogi gan Aelod sy'n ildio'i sedd, cynigiwyd mai am uchafswm o fis y dylid ariannu staff drwy lwfansau'r Cynulliad i ddirwyn gwaith eu swyddfeydd i ben. Yn dilyn y sylwadau a gafwyd, penderfynwyd ymestyn y cyfnod hwn i ddau fis yn y papur briffio.

3.6.2 Roedd ymateb y Grŵp Llafur yn pwysleisio bod rhai o blith y staff cymorth yn disgwyl cael mwy na dau fis i ddirwyn gwaith eu swyddfeydd i ben, a bod angen darparu'n briodol ar eu cyfer pan fyddai eu swyddi'n dod i ben fel rhan o'r gost o ddenu staff o safon i weithio fel staff cymorth. Hefyd, mae rhai o blith y staff cymorth wedi dweud na fyddai dau fis yn ddigon o amser iddynt anfon manylion yr Aelodau newydd at etholwyr a fyddai'n dymuno i'w hachosion gael eu cyfeirio atynt.

3.6.3 Ystyriwyd y sylwadau a gafwyd ac mae'r argymhelliad yn awgrymu mai'r uchafswm y dylid ei ganiatáu i'r Aelodau ddirwyn eu materion i ben yw dau fis ar ôl diddymu'r Cynulliad. Mae'n amlwg y bydd gan Aelodau sy'n ildio'u seddi ragor o amser i baratoi ar gyfer diwedd eu cyfnod o wasanaeth o'u cymharu â'r Aelodau nad ydynt yn cael eu hailethol. O ystyried yr argymhelliad, ni ddisgwylir y bydd angen talu tâl yn lle rhoi cyfnod o rybudd i staff cymorth os yw'r Aelod y maent yn gweithio iddo neu iddi'n ildio'i sedd. Bydd yn rhaid i staff cymorth sydd fel arfer yn gweithio yn Nhŷ Hywel gytuno â'r Aelod sy'n eu cyflogi ar fan gwaith arall ar ôl yr etholiad.

3.6.4 Mae'r Grŵp Llafur hefyd wedi awgrymu y dylid pennu dyddiad penodol i Aelodau gyhoeddi eu penderfyniad i ildio'u seddi. Ar ôl y dyddiad hwn, credant y dylai'r cyfnod o rybudd

a gaiff eu staff cymorth fod yr un fath â'r cyfnod a roddir i Aelodau na chânt eu hailethol. Nid yw hyn wedi'i gynnig, fodd bynnag, gan y gallai pennu dyddiad penodol arwain at anghysonderau yn y modd y caiff staff cymorth eu trin.

3.7 Caiff staff cymorth barhau i weithio yn Nhŷ Hywel yn amodol ar y rhaglen cynnal a chadw swyddfeydd a fydd yn nodi pryd y bydd angen gwacáu swyddfeydd.

3.7.1 Roedd y papur briffio a ddosbarthwyr i bob plaid yn awgrymu y bydd angen i'r Aelodau drefnu i bacio'u swyddfeydd cyn yr etholiad. Dylid pacio swyddfeydd erbyn diwedd y diwrnod gwaith ar y diwrnod y caiff y Cynulliad ei ddiddymu os na fydd staff yn gweithio ynddynt wedi hynny. Os bydd staff yn gweithio mewn swyddfa yn Nhŷ Hywel tra bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu, dylid pacio'r offer swyddfa erbyn diwrnod yr etholiad.

3.7.2 Roedd ymateb yr holl bleidiau'n awgrymu eu bod am i'r Comisiwn fod yn hyblyg yn y cyswllt hwn. Nododd y Grŵp Llafur a Grŵp y Ceidwadwyr fod Aelodau a gollodd eu seddi mewn etholiadau blaenorol wedi cael pacio'u swyddfeydd yn ystod y penwythnos ar ôl yr etholiad. Pwysleisiodd staff cymorth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru y bydd angen iddynt ddefnyddio ffeiliau gwaith achos sydd ar y gweill tra bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu.

3.7.3 Cynigir bod yr argymhelliad yn caniatáu hyblygrwydd. Yn amodol ar y rhaglen cynnal a chadw swyddfeydd, caiff staff cymorth barhau i weithio yn Nhŷ Hywel a bydd y Gwasanaeth Rheoli Ystadau a Chyfleusterau yn rhoi gwybod iddynt am unrhyw waith cynnal a chadw a drefnwyd. Mae'n bosibl y bydd hyn yn golygu y bydd angen pacio'r swyddfeydd cyn diwrnod yr etholiad. Fodd bynnag, caiff canllawiau manylach eu dosbarthu cyn y caiff y Cynulliad ei ddiddymu.

4.0 Trefniadau TGCh tra bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu

4.1 Caniateir i staff cymorth ddefnyddio cyfrifiaduron y Cynulliad yn Nhŷ Hywel a'r swyddfeydd etholaethol/rhanbarthol ond dim ond ar gyfer gwaith achos sydd ar y gweill a gwaith swyddfa arferol.

4.1.1 Roedd y cynnig gwreiddiol yn pwysleisio mai dim ond ar gyfer gwaith achos sydd ar y gweill eisoes y gellid defnyddio cyfrifiaduron a ddarparwyd gan y Cynulliad (a chanddynt raglenni Word, Excel, Internet Explorer a'r System Rheoli Achosion). Fodd bynnag, roedd y Grŵp Llafur am i'r cyfrifiaduron hyn gael eu defnyddio ar gyfer gwaith swyddfa dilys nad oedd yn ymwneud â gwaith etholiadol. Mae'r argymhelliad yn adlewyrchu hyn.

4.2 Ni fydd yr Aelodau na'r staff cymorth yn gallu defnyddio'r rhwydwaith sy'n cael ei rannu (gyriant H: a P:) ar ôl 5pm ar y diwrnod y caiff y Cynulliad ei ddiddymu.

4.2.1 Cafwyd nifer o sylwadau ar yr argymhelliad uchod gan staff cymorth unigol a'r Grŵp Llafur. Roedd y Grŵp Llafur yn dadlau mai'r arfer gorau fyddai caniatáu iddynt barhau i ddefnyddio'r rhwydwaith ac roedd staff cymorth unigol yn pwysleisio y gallai'r Cynulliad fod yn hyrwyddo mynediad anniogel drwy ganiatáu iddynt lawrlwytho ffolderi cyfan ar gof pin neu CD ROM.  Roedd staff cymorth y Democratiaid Rhyddfrydol o blaid enwi un neu ddau o unigolion dynodedig a fyddai'n cael parhau i ddefnyddio'r rhwydwaith i sicrhau cyfnod  trosglwyddo didrafferth pan fyddai'r Aelodau newydd yn dechrau ar eu gwaith.

4.2.2 Yn San Steffan a'r Alban, ni chaiff yr Aelodau na'r staff cymorth  ddefnyddio'r rhwydweithiau sy'n cael eu rhannu ar ôl 5pm ar y diwrnod y caiff y deddfwrfeydd eu diddymu. Mae rhwydwaith o'r fath yn amlwg yn cael ei ystyried yn un o adnoddau'r Cynulliad. Caiff Aelodau sy'n gobeithio cael eu hailethol a'r rheini sy'n ildio'u seddi, ragor o ganllawiau ar Dechnoleg Gwybodaeth cyn diddymu'r Cynulliad.

4.3 Ni fydd yr Aelodau'n cael defnyddio cyfrifon Outlook ar ôl diddymu'r Cynulliad. Gallant ofyn i'w negeseuon e-bost gael eu hanfon i gyfrif trydydd parti. Bydd y system ar gyfer anfon negeseuon ymlaen yn awtomatig a'r negeseuon sy'n hysbysu pobl nad yw'r Aelod yn y swyddfa'r un fath i bawb.

4.3.1 Cafwyd nifer o sylwadau ar y cynigion yn ymwneud â chyfrifon Outlook. Roedd y Grŵp Llafur, Grŵp y Ceidwadwyr a Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn awgrymu bod yn

***rhaid*** **anfon negeseuon e-bost ymlaen. Hefyd, mae'r Grŵp Llafur a Grŵp y Ceidwadwyr wedi gofyn am gael ysgrifennu eu negeseuon eu hunain i hysbysu pobl nad ydynt yn y swyddfa.**

**4.3.2 Bydd yr argymhelliad yn caniatáu i'r Aelodau ofyn i'w negeseuon e-bost gael eu hanfon i gyfrifon trydydd parti os gwneir cais am hynny. I osgoi gwahaniaethu rhwng cyn Aelodau, fodd bynnag, argymhellir y dylid paratoi neges safonol.**

**4.4 Bydd modd defnyddio System Rheoli Achosion y Cynulliad ar gyfer gwaith achos sydd ar y gweill ond ni cheir ychwanegu gwaith achos newydd ar ôl diddymu'r Cynulliad. Ni fydd defnyddwyr yn gallu anfon negeseuon e-bost o'r system.**

**4.4.1 Ni chafwyd sylwadau ar y cynnig hwn ac nid oes unrhyw newidiadau wedi'u hargymell.**

**4.5 Caniateir mynediad i'r rhyngrwyd i hwyluso gwaith achos sydd eisoes ar y gweill a dyletswyddau swyddfa arferol.**

**4.5.1 Roedd ymateb staff cymorth unigol yn canolbwyntio ar eu gallu i ddefnyddio cyfrifon e-bost trydydd parti drwy gyfrwng rhwydwaith y Cynulliad. Yn unol â rheolau Rhwydwaith GF, bydd modd defnyddio cyfrifon e-bost trydydd parti penodol drwy gyfrwng y rhwydwaith (os yw Aelodau unigol yn cytuno).**

**4.6 Caniateir i ffonau symudol gael eu cadw ond ni fydd y gost o'u defnyddio (gan gynnwys cost rhentu, cost galwadau neu gostau cysylltiedig) tra bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu'n cael ei ad-dalu (ac eithrio costau'n gysylltiedig â gwaith achos, os gellir dangos mai at y diben hwnnw y cafodd y ffôn ei defnyddio).**

**4.6.1 Gofynnodd Grŵp y Ceidwadwyr a fyddai'r Aelodau'n cael cadw'u ffonau symudol nhw. Newidiwyd yr argymhelliad i egluro'r sefyllfa yn y cyswllt hwn.**

**4.7 Caiff yr Aelodau a'u staff cymorth gadw'u teclynnau Blackberry er na chânt hawlio ad-daliad am eu defnyddio tra bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu (ac eithrio galwadau'n**

gysylltiedig â gwaith achos sydd y gweill). Ni fydd gwasanaethau data ar gael.

4.7.1 Ychydig o sylwadau a gafwyd ar y cynnig hwn ac eithrio un gan Grŵp Plaid Cymru yn gofyn a oedd hyn yn cynnwys staff cymorth. Newidiwyd yr argymhelliad yn unol â'u sylwadau. Yr Aelodau fydd yn gyfrifol am dalu'r gost o'u defnyddio yn ystod y cyfnod dan sylw ac ni fydd modd defnyddio gwasanaethau data (anfon/derbyn negeseuon e-bost) ar ôl diddymu'r Cynulliad. Ni fydd modd defnyddio'r gwasanaeth llais (galwadau ffôn) ar ôl 9am ar y diwrnod ar ôl yr etholiad.

4.8 Caniateir i ffonau swyddfa gael eu defnyddio ar gyfer gwaith achos sydd ar y gweill a gwaith swyddfa arferol.

4.8.1 Yn ôl y cynnig gwreiddiol, ni fyddai cost galwadau ffôn o'r swyddfeydd yn cael eu had-dalu tra byddai'r Cynulliad wedi'i ddiddymu oni bai bod yr Aelod yn gallu dangos bod y galwadau'n ymwneud â gwaith achos a oedd ar y gweill neu waith dirwyn i ben, a *dim ond* at y dibenion hynny. Roedd y sylwadau gan yr holl bleidiau'n awgrymu bod y cynnig yn rhy gaeth ac afresymol. Mae'r argymhelliad yn adlewyrchu'r sylwadau hyn ac yn caniatáu i ffonau swyddfa gael eu defnyddio ar gyfer gwaith achos sydd ar y gweill a gwaith swyddfa arferol.

4.9 Rhaid i'r Aelodau sy'n ildio'u seddi neu sy'n sefyll i gael eu hail-ethol gynnwys ymwadiad yn egluro bod y Cynulliad wedi'i ddiddymu ar unrhyw wefan a noddir gan y Cynulliad neu flog preifat.

4.9.1 Yn eu hymateb i'r cynnig hwn, gofynnodd Grŵp Plaid Cymru am eglurhad pellach ar wefannau sydd ag 'AC' yn eu henw. Rhaid cynnwys ymwadiad yn egluro bod y Cynulliad wedi'i ddiddymu ar yr hafan pob gwefan y mae Aelod yn berchen arni. Rhaid i gyn Aelodau (p'un a ydynt yn ildio'u seddi ynteu'n ceisio cael eu hail-ethol) osgoi rhoi'r argraff eu bod yn gynrychiolwyr etholedig tra bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu.

4.9.2 Bydd pob linc at wefannau'r Aelodau'n cael ei dynnu oddi ar wefan CynulliadCymru.org pan gaiff y Cynulliad ei ddiddymu

a bydd bywgraffiadau'r Aelodau'n cael eu symud i adran newydd yn ymwneud â'r Trydydd Cynulliad. Cyhoeddir canllawiau maes o law.

5.0 Y materion uchod sy'n peri'r pryder mwyaf i'r Aelodau a'u staff cymorth. Roedd y sylwadau a gafwyd gan yr holl bleidiau'n ymwneud ag agweddau manylach ar y trefniadau diddymu. Ymdrinnir â'r cwestiynau hyn mewn arweiniad ar y diddymu a gaiff ei baratoi ar ôl cyhoeddi penderfyniadau'r Comisiwn. Bydd yr arweiniad yn ymwneud â'r holl drefniadau'n gysylltiedig â TGCh, cyfleusterau a gwaith achos.

6.0 Caiff sylwadau ar benderfyniadau y cytunwyd arnynt eisoes eu nodi.

6.1 Ni chaniateir i adnoddau'r Cynulliad (gan gynnwys staff cymorth) gael eu defnyddio i ymgymryd â gwaith achos newydd sy'n codi ar ôl diddymu'r Cynulliad.

6.1.1 Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2010, cytunodd Comisiwn y Cynulliad i ganiatáu i'r Aelodau ddefnyddio adnoddau'r Cynulliad i gwblhau gwaith achos a oedd ar y gweill – ond nid ar gyfer gwaith achos newydd a fyddai'n codi ar ôl diddymu'r Cynulliad. Gallai Aelodau a oedd yn sefyll fel ymgeiswyr ymgymryd â gwaith achos newydd yn ystod y cyfnod hwn fel dinasyddion preifat.

6.1.2 Cafwyd ymateb cryf i hyn gan y Grŵp Llafur a Grŵp y Ceidwadwyr a ddywedodd y byddai'r Aelodau sy'n sefyll eto fel ymgeiswyr dan anfantais gan na fyddent yn gallu ymateb i geisiadau dilys i ymgymryd â gwaith achos ac y gallai hynny fygwth unrhyw berthynas a oedd wedi datblygu rhyngddynt hwy â'u hetholwyr. Yn eu sylwadau, soniwyd am yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yn San Steffan, lle caniateir i'r Aelodau ymgymryd â gwaith achos newydd ar yr amod nad yw'n deillio o'u gwaith ymgyrchu. Roedd staff cymorth y Democratiaid Rhyddfrydol hefyd yn dadlau y byddai'r cynnig yn gadael etholwyr heb gynrychiolaeth tra bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu.

6.1.3 Mae'r cyngor cyfreithiol a gafwyd yn dweud yn glir mai dim ond ar gyfer gwaith achos sydd eisoes ar y gweill y ceir defnyddio adnoddau'r Cynulliad tra bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu. Mae hyn yn codi o delerau Deddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n rhwymo'r Cynulliad ond nad yw'n berthnasol i San Steffan. Gan hynny, nid yw'r cynnig wedi newid. Bydd y canllawiau a gyhoeddir yn atgoffa swyddfeydd fod Aelodau sy'n sefyll i gael eu hail-ethol yn cael ymgymryd â gwaith achos newydd ar ôl diddymu'r Cynulliad ond bod yn rhaid iddynt wneud hynny fel dinasyddion preifat. Ni fyddant yn cael defnyddio adnoddau'r Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys defnyddio staff cymorth a ariennir drwy Lwfans Costau Staffio'r Aelodau ar ôl diddymu'r Cynulliad.

6.2 Ni fydd swyddfeydd ar gael yn Nhŷ Hywel ar ôl diddymu'r Cynulliad i'r Aelodau hynny nad oes ganddynt swyddfa etholaethol/rhanbarthol ar hyn o bryd.

6.2.1 Roedd y sylwadau a gafwyd yn dilyn cyfarfod y Comisiwn ym mis Gorffennaf yn awgrymu y dylai Aelodau nad oes ganddynt swyddfa etholaethol neu ranbarthol barhau i fedru defnyddio Tŷ Hywel i ymgymryd â gwaith achos. Mae ymateb staff cymorth sy'n gweithio i'r Grwpiau Plaid wedi canolbwyntio ar ddefnyddio Tŷ Hywel. Cyhyd ag y caiff argymhelliad 3.6 (uchod) ei fabwysiadu, byddai hyn yn ateb ymholiadau staff cymorth.

6.2.2 Er y caiff staff cymorth ddefnyddio Tŷ Hywel, byddai caniatáu i Aelodau nad oes ganddynt swyddfa etholaethol neu ranbarthol ddefnyddio'r adeiliad yn anghyson â'r hyn a ganiatier i Aelodau eraill. Mae digon o amser i'r Aelodau dan sylw wneud trefniadau eraill ar gyfer y cyfnod byr y bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu os ydynt yn teimlo bod hynny'n angenrheidiol.

**Diddymu'r Cynulliad yn 2011 – penderfyniadau a wnaed gan Gomisiwn y Cynulliad ar 8 Gorffennaf 2010**

1. **Bydd modd defnyddio adnoddau'r Cynulliad i gwblhau gwaith achos sydd ar y gweill pan gaiff y Cynulliad ei ddiddymu ond nid ar gyfer gwaith achos sy'n codi ar ôl hynny.**

   **Mae'r sefyllfa gyfreithiol yn y cyswllt hwn yn glir. Ni ellir caniatáu i'r Aelodau ddefnyddio adnoddau'r Cynulliad tra bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu. Mae egwyddor ganolog y Penderfyniad (paragraff 1.2.1) yn gymwys, sef "mai dim ond lwfansau a/neu dreuliau rhesymol sy'n codi'n anorfod mewn perthynas â'u gwaith y gall Aelodau'r Cynulliad eu hawlio." Os yw Aelod yn ymgymryd â gwaith achos cyn diddymu'r Cynulliad, yna wrth barhau i ddelio â'r achos mae'n gwneud hynny " mewn perthynas â'i waith fel Aelod Cynulliad". Ar y llaw arall, ar ôl diddymu'r Cynulliad, mae Aelod yn peidio â bod yn Aelod ac ni all ymgymryd ag achosion yn rhinwedd *ei swydd fel Aelod Cynulliad* gan nad yw'n Aelod Cynulliad.**

   **Os yw etholwyr yn gofyn am gymorth gan ymgeiswyr yn yr etholiad ar ôl diddymu'r Cynulliad, yna gall ymgymryd â'r achos fel ymgeisydd yn yr etholiad ond *ni fydd yn gwneud hynny fel Aelod Cynulliad* ac, felly, ni ellir defnyddio adnoddau'r Cynulliad ar gyfer yr achosion hynny.**

   **Yn achos yr Aelodau hynny'n sy'n ildio'u seddi, neu'r Aelodau hynny na chânt eu hailethol, gellir defnyddio'r Lwfans Dirwyn i Ben i gwblhau achosion.**

   **Os yw gwaith achos ar y gweill pan gaiff y Cynulliad ei ddiddymu, gellir defnyddio gwasanaethau'r Cynulliad i'w gwblhau. Gall Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau roi arweiniad, cyn diddymu'r Cynulliad, am ffynonellau gwybodaeth y gellir eu defnyddio ar ôl diddymu'r Cynulliad ar gyfer unrhyw achosion a allai godi. Bydd y wybodaeth hon ar gael i bawb i sicrhau tegwch i bob ymgeisydd yn yr etholiad.**

2. **Bydd mynediad diogelwch Aelodau sy'n sefyll fel ymgeiswyr yn yr etholiad yn cael ei atal ar ddiwedd y diwrnod cyntaf ar ôl diddymu'r Cynulliad. Bydd hyn yn eu hatal rhag mynd i'r rhannau hynny o Dŷ Hywel/y Senedd nad ydynt ar agor i'r cyhoedd.**

**Sylwch: Bydd mynediad diogelwch swydd-ddeiliaid yn parhau, ond dim ond mewn perthynas â'u dyletswyddau fel swydd-ddeiliaid. Mae hyn yn berthnasol i'r Llywydd, Comisiynwyr y Cynulliad, Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru, Dirprwy Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol.**

3. **Bydd mynediad diogelwch Aelodau sy'n ildio'u seddi'n cael ei atal ar ddiwedd yr wythnos gyntaf ar ôl diddymu'r Cynulliad.**
   **Bydd y cyfnod estynedig hwn yn caniatáu iddynt ddirwyn eu gwaith i ben.**

   **Sylwch: Bydd mynediad diogelwch swydd-ddeiliaid yn parhau, ond dim ond mewn perthynas â'u dyletswyddau fel swydd-ddeiliaid. Mae hyn yn berthnasol i'r Llywydd, Comisiynwyr y Cynulliad, Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru, Dirprwy Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol.**
4. **Ni ddylai ymgeiswyr gael defnyddio rhai gwasanaethau a chyfleusterau penodol y Cynulliad (fe'u nodir isod) ar ôl diddymu'r Cynulliad**

   **Ni fydd ymgeiswyr yn yr etholiad nac Aelodau sy'n ildio'u seddi, na'u staff, fel arfer yn gallu defnyddio gwasanaethau'r Cynulliad, fel Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Llyfrgell yr Aelodau, Swyddfa Brwsel, y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Gwasanaeth y Pwyllgorau etc ar ôl diddymu'r Cynulliad.**

   **Cyhoeddir canllawiau'n nodi'r gwasanaethau a fydd yn dal ar gael iddynt, fel Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau, a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau ar gyfer gwaith achos sydd eisoes ar y gweill.**

   **Bydd angen pacio a gwacáu swyddfeydd yr Aelodau ar unwaith ar ôl diddymu'r Cynulliad, yn amodol ar unrhyw drefniadau a wnaed mewn perthynas â swyddfeydd staff cymorth.**

5. **Dylid darparu cyfleusterau i ganiatáu i swydd-ddeiliaid ymgymryd yn effeithiol â dyletswyddau eu swyddi ar ôl diddymu'r Cynulliad.**

   **Mae Deddf 2006 yn darparu ar gyfer cadw rhai swyddfeydd penodol ar agor; caiff y swyddfeydd hyn y cymorth priodol ar ôl diddymu'r Cynulliad  i ganiatáu i swydd-ddeiliaid ymgymryd â dyletswyddau eu swyddi. Y swydd-ddeiliaid hyn yw'r Llywydd, Comisiynwyr y**

**Cynulliad, Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru, Dirprwy Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol.**

6. **Dylid newid y Penderfyniad i adlewyrchu Deddf 2006 mewn perthynas â chyflogau'r swydd-ddeiliaid a threfniadau ar ddiwedd y flwyddyn.**
   **Gosodwyd Penderfyniad diwygiedig ar 22 Medi 2010.**